**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref :
Ein cyf/Our ref: MA-P/KW/1239/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Ebrill 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Ebrill yn gofyn am wybodaeth bellach am Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog.

Sefydlwyd y grŵp yn dilyn yr uwchgynhadledd a gynhaliwyd y llynedd i drafod sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion i'r oedi a brofwyd wrth lunio rhai adnoddau yn ystod y rownd ddiweddaraf o ddiwygio cymwysterau. Mae'r grŵp yn edrych ar y trefniadau ar gyfer cynhyrchu adnoddau addysgol yng Nghymru yn y dyfodol, a fydd yn sicrhau bod adnoddau dwyieithog ar gael ar yr un pryd â rhai Saesneg. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis ac yn dod â chynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol ynghyd gan gynnwys cyhoeddwyr, y cyfryngau a'r sector creadigol, Cyngor Llyfrau Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC.

Nid yw datblygu isadeiledd i gynhyrchu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm a'r cymwysterau newydd yng Nghymru yn dasg syml ac nid oes ffordd gyflym o'i chwmpas hi. Bydd y grŵp yn ymchwilio i nifer o fodelau posibl o'r modd y gallwn drefnu pethau yn y dyfodol a byddwn yn hapus i ddarparu'r diweddariadau i'r Pwyllgor bob chwarter wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae'r materion a drafodwyd hyd yn hyn yn cynnwys: datblygu gallu ac arbenigedd yng Nghymru ym maes cyhoeddi addysgol (gan gynnwys awduron); cyllid a'r amserlen ar gyfer cynhyrchu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r cymwysterau cysylltiedig. Mae'r grŵp yn ystyried y prosesau a modelau presennol a bydd hefyd yn dysgu o brofiadau a modelau gwledydd eraill sy'n cyhoeddi mewn dwy iaith. Rhwng nawr a mis Ebrill 2019, pan fydd y cwricwlwm newydd ar gael ar gyfer gwneud sylwadau arno, bydd cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer diwallu anghenion y cwricwlwm newydd a'i gymwysterau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y cyfamser, rwy'n parhau i fod wedi ymroi'n llwyr i i wella'r sefyllfa o ran adnoddau, a'u bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd i gefnogi cymwysterau. O ran adnoddau newydd/ sydd ar y gweill, rwy'n falch o ddweud bod CBAC wedi cynnal trafodaethau gyda  dau o'r prif ddarparwyr ym maes gwerslyfrau, sef  Illuminate Publishing a Hodder, ac wedi dod i ddealltwriaeth y bydd fersiynau Saesneg yn cael eu dal yn ôl am wyth wythnos i ganiatáu i'r fersiynau Cymraeg gael eu llunio ac y bydd y ddwy iaith yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Mae dwy gyfrol wedi'u nodi i dreialu'r broses hon.


Rhaid pwysleisio bod risgiau ynghlwm wrth hyn, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd a chywirdeb cynnwys a therminoleg y fersiynau Cymraeg. Fodd bynnag, os nad yw'r fersiwn cyfrwng Cymraeg yn barod o fewn cyfnod yr estyniad wyth wythnos, bydd y cyhoeddwyr yn rhyddhau'r fersiwn Saesneg yn ôl eu harfer. Os yw'r arbrawf hwn yn llwyddiant yna bydd modd mabwysiadu'r drefn hon ar gyfer gwerslyfrau eraill arfaethedig yn y tymor byr.

Rydw i hefyd wedi gofyn i CBAC i ddyrannu nifer o'r teitlau sydd ar y gweill/ yn arfaethedig i gyhoeddwyr Cymraeg allanol fel rhan o'r cytundeb grant newydd. Bydd CBAC yn mentora'r cwmnïau fel eu bod yn magu hyder wrth ymgymryd â chyhoeddi addysgol ac yn meithrin arbenigedd. Yn ogystal, bydd seminarau yn cael eu cynnal â chyhoeddwyr Cymraeg a Saesneg yng Nghymru er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o faes cyhoeddi addysgol a datblygu eu sgiliau a'u hyder wrth gystadlu am waith o'r fath a'i gyflawni. Bydd y seminarau hyn yn dechrau ym mis Mehefin.

Rydw i hefyd wedi gofyn i CBAC gomisiynu ymchwil i ddefnydd ymarferwyr, dysgwyr a rhieni o adnoddau addysgol Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn rhan o'r broes o wneud penderfyniad ynglŷn â'r gofynion o ran adnoddau yn y dyfodol a bydd hefyd yn rhan o drafodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid ynghylch modelau ar gyfer  y dyfodol. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn dechrau ym mis Mai a bydd y canlyniadau gennym yn yr hydref.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn o ddefnydd i chi.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education